

# CYNHADLEDD CLYBIAU SY'N AELODAU

## 2019

**AGENDA**  
GOGLEDD CYMRU  
25ain IONAWR 2020

09:30 - 10:00	Cofrestru, Paned a Rhwydweithio. Cyfarfod clybiau a chynrychiolwyr eraill
10:00 - 10:30	Croeso a Chyflwyniadau Diweddariad ar ein Camp a'r rhanbarth, cyflwyno'r thema 'Rhoi Pobl yn Gyntaf', astudiaethau achos ysbrydoledig.
10:30 - 11:00	Rhoi Pobl yn Gyntaf: Cyflwyno ymchwil newydd yr RYA i wirfoddoli mewn clybiau a rheoli pobl. Sesiwn Holi ac Ateb
11:00 - 11:30	Egwyl - Paned a Rhwydweithio
11:30 - 12:30	Rownd 1 – Sesiynau datblygu clwb
12:30 - 13:30	Cinio a Rhwydweithio
13:30 - 14:30	Rownd 2 – Sesiynau datblygu clwb
14:30 - 15:00	Egwyl - Paned a Rhwydweithio
15:00 - 16:00	Rownd 3 – Sesiynau datblygu clwb
16:00 - 16:30	Gwobrau, a'r camau nesaf

## ROWND 1

### **Beth mae ein clwb angen ei wybod am y gyfraith cyflogaeth?**

Elfennau cyfreithiol gwirfoddoli, contractio a chyflogi pobl.

### **Newid Hinsawdd? Bioamrywiaeth? Plastig Defnydd Sengl? Sut mae blaenoriaethu?**

Mae'r RYA wedi ymrwymo ar ran ei aelodau i roi sylw i bryderon amgylcheddol a helpu hwylio hamdden i gyfrannu at gynaliadwyedd. Bydd y gweithdy rhyngweithiol yma'n dechrau gyda chyflwyniad byr ar yr wyddoniaeth ddiweddaraf a pholisiau'r llywodraeth, a beth maent yn ei olygu ar gyfer y dyfodol. Wedyn byddwn yn mynd ymlaen i drafod sut gall unigolion a chlybiau gynllunio yn y ffordd orau i roi sylw i faterion cynaliadwyedd a sicrhau'r effaith fwyaf am y gost leiaf.

### **Sut gallwch chi ddatblygu rasio eich clwb gyda chyfleoedd i wirfoddolwyr clwb?**

Bydd y sesiwn rhyngweithiol yma'n edrych ar sut gall Tîm Gwasanaethau Rasio'r RYA helpu eich pobl i ddarparu'r rasio mae eich aelodau ei eisiau.

- Rheoli rasys – sut i gael y gorau o rasio eich clwb o wythnos i wythnos
- Cynghorwyr rheolau – sut i ddelio ag anghydfod ynghylch rheolau a sicrhau bod rasio'n deg ac yn hwyl
- Handicap – edrych ar sut i gael y gorau o gynlluniau PY ac NHC yr RYA er mwyn cefnogi gwell rasio clwb
- Mesur ac Archwilio Offer – sut i sicrhau bod pawb yn cael cyfleoedd teg
- Fformatau Rasio – pa opsiynau sydd ar gyfer gwahanol fformatau

### **Sut gallwn ni wella'r hyrwyddo ar glybiau a pha adnoddau sy'n bodoli i'ch cefnogi chi?**

Codi ymwybyddiaeth o'ch clwb a'r galw amdano yw un o'r heriau mwyaf i ni. Beth mae clybiau'n ei wneud i oresgyn hyn a pha gefnogaeth sydd ar gael i'ch helpu chi?

## ROWND 2

### **Sut gall cynnal gweithgarwch 'merched ar y dŵr' gynyddu aelodaeth eich clwb?**

Mae prosiectau Merched ar y Dŵr wedi bod yn llwyddiant mawr mewn llawer o glybiau ledled y wlad, gan gynyddu gweithgarwch clwb o ganlyniad. Cewch wybod beth sy'n allweddol i lwyddiant, gan y rhai sydd â phrofiad. Nid dim ond creu cyfleoedd i ferched yn unig yw ffocws y sesiwn yma. Drwy herio'r rhwystrau traddodiadol mae merched yn eu hwynebu wrth ystyried cymryd rhan yn ein camp ni, mae'r dystiolaeth yn dangos bod cymryd rhan ar draws y rhywiau'n gallu cynyddu.

### **Mae'r byd gwirfoddoli yn newid. Ond ydi arferion gwirfoddoli eich clwb chi wedi newid hefyd? Cewch wybod sut i ddatblygu eich rheolaeth ar wirfoddolwyr er mwyn recriwtio a chadw mwy o wirfoddolwyr.**

Mae ymchwil yn awgrymu nad yw tueddiad pobl i wirfoddoli wedi newid ond mae sut maent eisiau gwirfoddoli wedi newid. Maent yn gweithio ar-lein nawr, yn chwilio am amserlenni hyblyg ac yn ceisio mwy o ymreolaeth a pherchnogaeth ar brosiectau. Nid gwneud cyfraniad yw'r nod mwyach, maen nhw eisiau gwneud gwahaniaeth! Cewch weld sut mae addasu eich arferion rheoli gwirfoddolwyr i ddarparu ar gyfer y math newydd yma o wirfoddolwr.

## ROWND 2

### **Sut gallwn ni ddatblygu aelodaeth eich clwb drwy addasu beth rydym yn ei gynnig i ddarpar aelodau?**

Rydyn ni'n gwybod oddi wrth ymchwil 'Futures' bod newidiadau wedi bod o ran gofynion a disgwyliadau amgylchedd clwb, a bydd y newidiadau'n parhau. Bydd y gweithdy yma'n edrych ar sut mae rhai clybiau'n treialu prosiectau ac yn addasu eu darpariaeth i ddiwallu'r anghenion hyn sy'n newid.

### **Sut gallwn ni sicrhau bod ein timau diogelwch yn barod ar gyfer sefyllfaoedd amrywiol a gofynion morwyr?**

Gall rôl gyrrwr cwch diogelwch neu'r llywiwr fod yn un heriol o ystyried yr amrywiaeth eang o forwyr, cychod ac amodau y bydd rhaid delio â hwy efallai. Bydd y sesiwn yma'n edrych ar beth mae clybiau'n ei wneud i baratoi eu timau ar gyfer y rôl yma ac i roi amser i chi ystyried opsiynau eraill.

## ROWND 3

### **Sut a pham ddylid trefnu sesiwn morio mewn clwb, beth yw'r heriau a sut mae eu goresgyn?**

Mae sesiwn morio neu rali mewn clwb yn helpu i ddenu aelodau newydd a chael yr aelodau presennol i weithredu. Bydd y sesiwn yma'n helpu i greu cynllun i drefnu rali lwyddiannus.

### **Oes opsiynau eraill i recriwtio gwirfoddolwyr o'ch clwb?**

Edrych ar y cydbwysedd o ran proffesiynoldeb yn erbyn cynnal ethos gwirfoddoli cadarn.

### **Sut gallwch chi sicrhau cyllid ar gyfer eich clwb drwy ffynonellau allanol?**

Cyngor ar yr amrywiaeth o ffynonellau o gyllid sydd ar gael i glybiau a chyngor ar gyfer ysgrifennu cais llwyddiannus.

### **Sut gall eich clwb arbed amser gwirfoddoli drwy wneud rheoli clwb yn haws?**

Edrych ar yr adnoddau sydd ar gael i glybiau sy'n gallu arwain at arbed amser a lleihau oriau gwirfoddoli.